cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

Cwestiynau cyffredin gan rieni 2017/18

Cwestiwn

Ateb

Pryd ddylai fy mhlentyn ymgeisio?

Gall ymgeisio unwaith y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk. Bydd yna ddyddiad cau i'ch plentyn gael arian mewn pryd ar gyfer dechrau ei gwrs, felly gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn ymgeisio cyn y dyddiad hwn.

Gall ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr hyd yn oed os nad yw wedi derbyn cadarnhad o le yn y brifysgol neu'r coleg. Bydd yn bosibl newid y manylion ar-lein yn hwyrach os oes angen.

A fydd yn rhaid i'm plentyn wneud ceisiadau ar wahân am y gwahanol grantiau a benthyciadau?

Dim ond un cais fydd angen iddo wneud er mwyn i ni asesu pa Fenthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Ffioedd, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (grant costau byw), Benthyciad Cynhaliaeth, Lwfans Dysgu i Rieni neu Grant Oedolion Dibynnol y mae modd iddo ei gael.

Os bydd yn gwneud cais am gymorth arall, megis y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl neu'r Grant Gofal Plant, dylai ddweud wrthym yn ei brif gais a byddwn yn anfon ffurflen gais ar wahân ar gyfer y rhain.

Efallai y bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig cefnogaeth atodol fel bwrsariaethau ac ysgoloriaethau. Dylech eu holi beth sydd ar gael a sut i wneud cais.

Os yw ei gwrs yn cael ei ariannu gan y GIG, bydd angen iddo lenwi ffurflen gais am fwrsariaeth GIG. Caiff Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ei redeg gan Uned Ddyfarniadau i Fyfyrwyr GIG Cymru. Am wybodaeth bellach, trowch at **www.nwsspstudentfinance.wales.nhs.uk/hafan**

Cwestiwn	Ateb
Rydw i'n poeni am gyflwyno tystiolaeth. Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?	Fel arfer, does dim rhaid i chi anfon unrhyw dystiolaeth atom. Os yw'ch plentyn yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr sy'n dibynnu ar incwm eich cartref, byddwn yn gofyn i chi roi manylion eich incwm i ni a'ch rhif Yswiriant Gwladol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i wirio eich incwm gyda HMRC a chyfrifo faint o gyllid i fyfyrwyr all eich plentyn gael. Mewn rhai achosion, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i ofyn am dystiolaeth benodol o incwm eich cartref; gallai hyn gynnwys llungopïau o'ch P60 neu'ch ffurflen dreth. Ni ddylech ofidio os bydd hyn yn digwydd – mae'n rhan o'n harchwiliadau ni i sicrhau bod eich plentyn yn cael y cyllid y mae'n gymwys i'w gael. Dylech anfon unrhyw dystiolaeth y byddwn yn gofyn amdani atom yn syth er mwyn i ni allu gorffen yr asesiad a gwneud y taliad cyntaf mewn pryd. Gofynnir i'ch plentyn roi tystiolaeth i ni o'i fanylion personol. Y ffordd hawsaf i wneud hyn yw i ddarparu manylion pasbort y DU dilys eich plentyn. Byddwn yn defnyddio'r rhain i gadarnhau ei fanylion personol – ni fydd angen iddo anfon ei basbort gwreiddiol. Os nad oes gan eich plentyn basbort dilys o'r DU, bydd angen iddo anfon ei dystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu o'r DU atom neu basbort dilys nad yw o'r DU. Rhaid darparu'r ddogfen wreiddiol. Os yw'n anfon tystysgrif geni'r DU neu dystysgrif mabwysiadu'r DU, rhaid hefyd anfon 'Ffurflen Tystysgrif Geni neu Fabwysiadu' wedi ei llenwi y gellir ei lawrlwytho o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
Mae gennyf blant eraill – a fydd hyn yn cael ei ystyried?	Bydd – byddwn hefyd yn gofyn i chi am unrhyw blant eraill fydd yn y brifysgol neu'r coleg ar yr un pryd. Yn ddibynnol ar eich amgylchiadau, gallent gael mwy o gyllid.
Sut fydd incwm y cartref yn cael ei asesu os nad yw'r rhieni gyda'i gilydd mwyach?	Rydym yn asesu incwm y cartref y rhiant mae'r myfyriwr yn ariannol ddibynnol arno - sef fel arfer y rhiant mae'r myfyriwr yn byw gydag ef neu hi.
Pryd fydd fy mhlentyn yn cael gwybod faint y byddant yn ei gael?	Wedi i ni asesu'r cais, byddwn yn anfon llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrwyr at y myfyriwr i gadarnhau beth y gall ei gael.

Cwestiwn	Ateb
Pryd fydd fy mhlentyn yn cael ei daliadau grant/benthyciad cyntaf?	Rhaid iddo wneud dau beth cyn y bydd y rhandaliad cyntaf yn cael ei dalu: • llofnodi a dychwelyd y datganiad; a • chofrestru ar ei gwrs er mwyn i'r brifysgol neu goleg allu rhoi gwybod i ni ei fod wedi cofrestru. Yna, byddwn yn rhyddhau taliad cyntaf ei Fenthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (neu Grant Cymorth Arbennig) i'w gyfrif banc. Fel arfer gwneir y taliad tri i bedwar diwrnod wedi i ni gael gwybod ei fod wedi cofrestru. Byddwn yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Grant Ffioedd i'r brifysgol neu'r coleg.
A allaf dalu rhywfaint o ffioedd dysgu fy mhlentyn neu ei ffioedd dysgu i gyd?	Oes, ond bydd angen i chi wneud trefniadau gyda'r brifysgol neu'r coleg i dalu unrhyw ffioedd dysgu. Hyd yn oed os byddwch yn dewis talu rhan o'r ffioedd dysgu, gall eich plentyn gael Benthyciad Ffioedd Dysgu a/neu Grant Ffioedd o hyd i dalu gweddill y costau.
Beth fydd yn digwydd os bydd fy incwm yn gostwng, neu os byddaf yn colli fy ngwaith?	Mae ein hasesiad ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, Grant Cymorth Arbennig a Benthyciad Cynhaliaeth ychwanegol yn seiliedig ar incwm eich cartref ar gyfer blwyddyn dreth 2015-16. Os yw'ch incwm yn ystod blwyddyn dreth 2017-18 yn debygol o fod o leiaf 15% yn is nag yr oedd yn 2015-16, gallwn asesu incwm eich cartref ar sail yr amcangyfrif hwnnw. Bydd angen i chi lawrlwytho a llenwi 'Ffurflen asesu incwm y flwyddyn gyfredol' – bydd y rhain ar gael o fis Ebrill 2017 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** Byddwn yn cysylltu â chi ar ddiwedd blwyddyn dreth 17/18 i gadarnhau eich gwir incwm.
Beth fydd yn digwydd os bydd fy mhlentyn yn newid cwrs neu brifysgol?	Cyn dechrau ei gwrs, gall ddiweddaru ei fanylion trwy fewngofnodi i'w gyfrif ar: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a dweud wrthym am y newidiadau. Ar ôl iddo gychwyn ar ei gwrs, dylai gysylltu â'i brifysgol am unrhyw newidiadau. Yna, bydd ei brifysgol neu goleg yn ein hysbysu.
A fydd yn rhaid i'm plentyn ymgeisio eto flwyddyn nesaf?	Bydd. Byddwn yn cysylltu â'ch plentyn bob blwyddyn pan fydd hi'n bryd iddo ailymgeisio.

Cwestiwn	Ateb
Pryd fydd yr ad-daliadau yn cychwyn?	Bydd disgwyl i fyfyrwyr ddechrau ad-dalu eu benthyciad yn y mis Ebrill wedi iddynt orffen neu adael eu cwrs, ond dim ond os bydd eu hincwm dros y trothwy ad-dalu, sef £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £404 yr wythnos ar hyn o bryd, y bydd disgwyl iddynt wneud ad-daliadau. Pan fydd y myfyriwr yn dechrau ad-dalu, bydd y swm y bydd yn ei ad-dalu yn seiliedig ar ei incwm, ac nid faint a fenthycoch. Byddant yn ad-dalu 9% o'u hincwm dros y trothwy ad-dalu.
A godir llog ar fenthyciadau myfyrwyr?	Fel arfer bydd ad-daliadau'n cael eu didynnu'n awtomatig gan y cyflogwr, ynghyd â'u treth ac Yswiriant Gwladol. Am ragor o wybodaeth ynghylch ad-daliadau, yn cynnwys sut i ad-dalu o dramor, ewch i www.slc.co.uk/ad-dalu. Bydd, mi fydd llog yn cael ei ychwanegu i'r benthyciadau cyn gynted ag y gwneir y taliad cyntaf i'ch plentyn neu ei brifysgol neu goleg nes bydd y benthyciad wedi ei ad-dalu'n llawn neu wedi ei ganslo. Codir llog ar y gyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau Manwerthu [RPI]) a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar ei amgylchiadau. Tra bod eich plentyn yn astudio, fe godir llog ar RPI plws 3%. O'r mis Ebrill wedi i'ch plentyn adael neu orffen ei gwrs, gall y llog a godir amrywio fel y dangosir isod.

Incwm y flwyddyn	Swm i'w ad-dalu
£21,000 neu lai	RPI
Rhwng £21,000 a £41,000	RPI + a hyd at 3%, yn ddibynnol ar incwm
£41,000 a throsodd	RPI +3%

A allaf i neu fy mhlentyn ad-dalu rhywfaint o'r benthyciadau neu'r holl fenthyciadau yn gynnar?	Gallwch. Gallwch chi neu'ch plentyn wneud trefniadau gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ad-dalu rhywfaint o'r benthyciadau neu'r holl fenthyciadau yn gynnar. Am ragor o wybodaeth, trowch at: **www.slc.co.uk/ad-dalu**

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.